

HUGHES, WILLIAM BULKELEY (1797 - 1882), Aelod Seneddol



Enw: William Bulkeley Hughes

Dyddiad geni: 1797

Dyddiad marw: 1882

Priod: Elizabeth Hughes (née Donkin)

Priod: Elizabeth Hughes (née Nettleship)

Plentyn: Sarah Elizabeth Hughes

Rhiant: Elizabeth Hughes (née Thomas)

Rhiant: William Bulkeley Hughes

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: Aelod Seneddol

Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol

Awdur: Emyr Gwynne Jones

Ganwyd ym Mhlas Coch, Llanidan, Môn; ganwyd 26 Gorffennaf 1797 yn fab hynaf i Syr William Bulkeley Hughes, Plas Coch a'r Brynnddu, ac Elizabeth, merch a chyd-etifeddes **Rhys Thomas**, Coed Alun, Caernarfon. Honnai teulu Plas Coch ei fod o gyff **Llywarch ap Brân**, **arglwydd Menai**, ac er canol y 15fed ganrif buasai iddo ran amlwg yng ngweinyddiaeth y sir. Cafodd Hugh Hughes (bu farw 1609), a adeiladodd Plas Coch yn 1569, yrfa ddisglair yn y gyfraith; daeth yn 'Queen's Attorney' yng Ngogledd Cymru ac yn aelod o Gyngor y Gororau, ond ni chafodd fyw i weithredu fel arglwydd prif farwr Iwerddon, swydd yr etholwyd ef iddi yn union cyn ei farw.

Cyfreithiwr oedd W. B. Hughes; o ysgol Harrow aeth i Lincoln's Inn, lle y galwyd ef i'r Bar yn 1824. Tra'n gwasnaethu fel bargyfreithiwr ar gylchdaith Rhydychen a Chaer daeth ymlaen fel ymgeisydd Toriaidd yn etholiad bwrdeisdrefi Arfon yn 1837, a gorchfygodd y **Capten Charles Henry Paget**. A dyna gychwyn ei gyswllt seneddol hir â'r etholaeth hon, cyswllt a barhaodd am yn agos i 40 mlynedd ag eithrio un bwlch rhwng 1859 a 1865. Ceidwadwr cymedrol ydoedd o ran ei ddaliadau gwleidyddol, er mai fel Rhyddfrydwr yr ymladdodd etholiad 1865. Dalai i gynrychioli'r bwrdeisdrefi hyd adeg ei farw, ac o ran oedran efe ydoedd tad Tŷ'r Cyffredin.

Yr oedd ganddo ddiddordeb dwfn ac effro mewn materion lleol o bob math; eisteddai ar fainc yr ustusiaid yn ei sir ei hun ac yn Sir Gaernarfon, a bu'n uchel siryf Môn yn 1861. Fel cadeirydd y 'Llandudno Improvement Commissioners' gwnaeth lawer i hyrwyddo datblygiad y dref honno rhwng y blynyddoedd 1873 ac 1877. Yn ystod y 40'au buddsoddodd lawer o'i arian mewn ffyrdd haearn yn Lloegr a Chymru, a bu'n gadeirydd y rheilffordd a redai trwy ganol Môn o'i chychwyn hyd nes i gwmi'r L.N.W.R. ei chymryd drosodd.

Bu ddwywaith yn briod: (1) ag Elisabeth, merch ac aeres Jonathan Nettleship, Matterset Abbey, swydd Northampton, (2) ag Elizabeth, merch William Donkin, Rothbury, Northumberland. Ei unig blentyn o'r ail briodas ydoedd Sarah Elizabeth, a hi a etifeddodd y stad pan fu farw ei thad, 8 Mawrth 1882, yn 84 mlwydd oed.

Awdur

Emyr Gwynne Jones, (1911 - 1972)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 30-1

Thomas Nicholas, *Annals and Antiquities of the Counties and County Families of Wales*(London 1872), cyf.I, 43-4

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 15 Mawrth 1882

Llawysgrifau Plas Coch yn Llyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **William Bulkeley Hughes**

Delweddau

Hugh J. Hughes, **William Bulkeley Hughes (of Plas Coch, Anglesey)**

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q8006112

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Jones, E. G., (1953). HUGHES, WILLIAM BULKELEY (1797 - 1882), Aelod Seneddol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HUGH-BUL-1797>

Yr arddull

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn cael ei darparu gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government